ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Ionawr 2020

Blwyddyn Newydd Dda. Daeth Tymor y Nadolig yn Ysgol Eifionydd i ben gyda phrysurdeb a bwrlwm nifer o weithgareddau i ddiddori ein disgyblion.

Canu Carolau

Ar fore Iau y 19eg o Ragfyr aeth criw o ddisgbylion i ddiddanu cwsmeriaid Tesco gyda chaneuon Nadoligaidd ac ar fore'r 6 o Ragfyr, aethant i Gartref Henoed Bodawen, Porthmadog ac y 13eg o Ragfyr, i Hafod y Gest. Dan arweiniad Miss Llio Dudley bu'r disgyblion yn canu carolau i'r trigolion ac roedd pob un ohonynt wedi mwynhau eu hunain. Da iawn chi.

Diwrnod Siwmper Nadolig a Ras Noddedig Sion Corn

Ar ddiwrnod olaf y tymor cafodd disgyblion a staff yr ysgol gyfle i ymuno yn hwyl yr Ŵyl wrth wisgo siwmper Nadoligaidd neu eu dillad eu hunain a bu hefyd Ras Noddedig Sion Corn oddi amgylch yr ysgol i'r disgyblion.

Cystadleuaeth Talent Eifionydd

Ar ddiwrnod olaf y tymor bu nifer o ddisgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth Talent Eifionydd. Bu llawer o eitemau gwefreiddiol gan gynnwys Cyfeiliant Piano, Canu, Dawnsio a Hud a Lledrith. Diolch i Lowri Gwynne a Tudur Evans, cyn ddisgyblion o'r Ysgol a sêr Rownd a Rownd am feirniadu'r gystadleuaeth. Yr enillwyr oedd:
1af - Alaw Jones Bl.9 - Unawd Piano.
2il - Tirion Rhys Bl.7 – Unawd Canu
3ydd - Jack Murphy– Hud a Lledrith
3ydd - Nel Evans a Bronwyn Butler – Piano a Chanu

Ymgyrch Nadolig Ysgol Eifionydd

Hoffai'r Ysgol ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd eitemau ar gyfer y Banc Bwyd lleol cyn y Nadolig. Llwyddwyd i gasglu 1005 o eitemau a gafodd eu dosbarthu rhwng Banc Bwyd Eglwys Sant Pedr Pwllheli a Banc Bwyd Blaenau Ffestiniog.